C 1929

Cyfres Llanbedr | Ionawr, 1929. | Cyf. 29. Rhif 1.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

# Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. — Y. Parch T. Oswald Williams.

## — Cynnwys. —

Darlun—Cae'ronnen.
Rhestr o Weinidogion Cae'ronnen.
Hanes Capeli'r Enwad yn Sir Aberteifi.
Cinio Nadolig.
Taith wrth y Tan.
Alltybiaca.
Priodasau.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

# YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. **Danfonir 6 copi ac** ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

*Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—*
*Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.*

*Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.*

YN AWR YN BAROD.

Gyrrwch archeb yn union am
Y LLYFR EMYNAU NEWYDD—

# PERLAU MOLIANT

(SOLFFA)

CASGLIAD O EMYNAU A THONAU
AT WASANAETH EGLWYSI UNDODAIDD CYMRU.

Prisiau :—
Lledr Hanner Rhwym, 4/6. | Lledr Llawn Rhwym, 5/6.
Lledr Morocco ac India Paper, 7/-.
Cludiad copiau unigol, 6ch. yn ychwanegol.

Derbynir archebion (*gyda blaendal*) oddiwrth Eglwysi a phersonau unigol yn awr. Anfoner at—
J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

# CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

# T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

**Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.**

# *Yr Ymofynnydd.*

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. IONAWR, 1929. Cyf. XXIX. Rhif 1.

CAPEL CAE'RONNEN.

# *Rhestr o Weinidogion Cae'ronnen.*

## I.—Y Cyfnod Cymysg (1654—1747).

Rice Powell (1653—1665).
David Jones (—1662—1704).
Evan Hughes (1653—1672—).
Morgan Howell (Llwynrhys) (Blod. 1654—1694).
John Evans (Cellan) (amryw flynyddoedd).
John Hanmer (Cellan) (Blod. 1660—1690).
David John Rees (Cilgwyn) (1692—1698).
David Edwards (Caeronnen) (1688—1716).
Jenkin Jones (Crugymaen) (1695—1722).
David Jenkins (Crugymaen) (1708—1758).
Philip Pugh (—1709—1760).
David Thomas (tua 1735) (Cymharer Panteg).
J. Jenkins (Bu farw yn Llundain 1776).
Evan Davies (1726—1737). (Bu farw 1747).

## II.—Y Cyfnod Ariaidd. 1747—1846.

Timothy Davies (Urdd. 1737—1760). (Bu farw 1771).
James Davies (Abermeurig). (Urdd. 1743).
Evan Davies (brawd T.D.). (Bu farw 1770). (Yng Nghellan beth amser).
Daniel Gronw (ymedy am y Bala 1769).
David Lloyd (Llwyn) (tua 1770).
Griffith Hughes (1755—1756).
Evan Davies (mab T.D.) (1776—1817).
(Ar farwolaeth Evan Davies torrwyd y cysylltiad a'r Cilgwyn).
William Rees (Urdd. 1804. Bu yma rai blynyddoedd).
David Davies Maespwll (1817—1818. Yn y Cilgwyn hwyrach ond arwyddodd yr alwad i John Jeremy).
Arthur Williams (1771—1844. Cynorthwywr).
John Jeremy (1819—1845).

## III.—Y Cyfnod Undodaidd. 1846—1929—

Thomas J. Griffiths (Tau Gimel) (1846—1851).
David Evans, B.A. (1851—1871).
Rees Cribin Jones (1871—1915).
Thomas Oswald Williams, M.A. (1915—1929—?).

# *Hanes Capeli'r Enwad yn Sir Aberteifi.*

## CAE'RONNEN.

PENNOD ddiddorol yn hanes Crefydd yng Nghymru yw'r ail ganrif ar bymtheg gyda'i chwerylon chwerw a'i brwydro hir, symud terfynau mewn byd ac eglwys, torri pen y brenin a rhoi Cromwell yn ei le, erlid a gorthrymu dibaid a chreulon, ond ni ddylasem farnu'r oes wrth yr erlid oherwydd yr oedd, hyd y medraf i farnu, mor onest a chydwybodol a'n hoes ninnau a dweyd y lleiaf amdani, ac ys awgrymai hanesydd diweddar edrychid ar sectwr gynt fel yr edrychir ar un anufudd i ddeddfau gwlad heddiw. Cefnai'r genedl ar Babyddiaeth ac yr oedd ei chwerylon yn ddigon byw i gynhyrchu llyfrau crefyddol ar y pynciau dadleugar. Trôi'n sicr at yr Eglwys Esgobol—ac am reswm da—yr un adeiladau, yr un seremoniau a'r un defodau a geid i bob ystyr ymarferol, ac nid ymddengys fod y gwahaniaethau'n bwysig. Pan ddaeth y Puritan *sism* oedd yn yr eglwys ac nid *heresi* a hithau'n rhannu ar lywodraeth eglwysig yn gynt o lawer nag ar bwnc o athrawiaeth. Mynnai'r Puritan buro'r eglwys o olion Pabyddiaeth megis y gwisgoedd offeiriadol, y fodrwy mewn priodas ac arwydd y groes wrth fedyddio a'u cyffelyb, ond ar ochr athrawiaeth nid oedd y mudiad Puritanaidd ond cais i galfineiddio Eglwys Loegr. Arminiaid ydoedd mwyafrif offeiriaid yr Eglwys yn ystod teyrnasiad Siarl y Cyntaf, a hwyrach o dan yr wyneb, er yn anymwybodol iddynt, fod a fynno hyn rywbeth a'r cweryl. Beth bynnag am hyn gorfu i arweinwyr y Puritaniaid yng Nghymru ffoi yn adeg y Rhyfel Cartrefol oherwydd fod y Cymry o blaid y brenin.

Dywedai Fafasor Powell yn 1646 "nad oedd cynifer ag un pregethwr duwiol a galluog i'w gael y pryd hwnnw ar gyfer pob sir yng Nghymru" a cheir y werin-lywodraeth yn ymyrryd a materion crefyddol, a rhoir rhestr o 131 o ddewis ddynion y Puritaniaid neu offeiriaid yr hen drefn wedi eu cymeradwyo yn pregethu yng Nghymru ar fin pasio Deddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru yn 1649. Yn 1654 ar waethaf pob ymdrech dywed Alexander Griffith fod 700 o blwyfi yng Nghymru heb neb yn pregethu ynddynt.

Cyn pasio Deddf Unffurfiaeth drwy ryw ystryw neu gilydd fe drowyd allan yn agos i gant o offeiriaid yng Nghymru, a rhyw 30 dan y ddeddf, dyma gyfran Cymru o'r ddwy fil, fel y'u gelwir, ac y mae'n werth nodi un ffaith bwysig. Rhennid Cynulleidfäwyr Cyfnod yr Adferiad i ddau ddosbarth. Yr oedd rhai wedi "crynhoi" eglwysi yn amser y werin lywodraeth ac wedi neillduo oddiwrth yr eglwys esgobol gan aros o'r tu allan pan ail-sefydlwyd Esgobyddiaeth. Yr oedd yna eraill er yn gweinidogaethu i eglwysi

wedi'u crynhoi, wedi dod neu wedi aros yn offeiriaid, darlithwyr neu bregethwyr mewn Eglwysi Cadeiriol mewn cysylltiad â phlwyfi.

Ymhlith yr olaf y ceir enw Rice Powell ficer Llanbedr a drowyd allan yn 1662. Yn Hen Lyfr y Cilgwyn (dyfyniadau W. D. Jeremy) ceir dan 1728—

"*A list of such as were Members of a Church of Christ gathered in Cardiganshire from the year* 1653 *to the year* 1659.
*Lampeter, March the 4th*, 1654,
*Rees Powell, Pastor,*
*Evan Hugh, etc*"

ac enwir yma Bettws, Llanarth, Llanbadarn Fawr, Llangoedmor Llanbadarn Odwyn a Garthely, Abermeurig fel canghennau neu fannau cyfarfod hwyrach.

Ni wyddys nemor am waith Powell wedi ei droi allan ond yn yr Episcopal Returns Tyddewi 1665 fe geir fod Powell wedi cyd-ffurfio gan adael yr eglwys ar wasgar i ofal eraill, a sicr fod rhywrai'n dod, Evan Hughes neu Ddavid Jones. Yr oedd Fafasor Powell, meddir, wedi bod yn pregethu yn Nolgam ar dir Coedmorfach yn 1642 ac ugain mlynedd yn ddiweddarach, cofnodir cymryd Evan Rhydderch, tadcu y Parch. Timothy Davies, o'r Beiliau i Lwydlo a'i ddirwyo o £30 oherwydd ei fod yn cynnal pregethu yn ei dŷ sef y Beiliau.

Yn 1672 dan *ddiclarasiwn* y brenin ceir y trwyddedau canlynol :

| *Lle* | *Trwydded* | *Dyddiad* | *Hanes yn* 1660—1662. | *Sect.* |
|---|---|---|---|---|
| *Cellan* | *Evan Hughes yn nhy David Hughes* | *Hyd.* 28 | *Wedi'i droi allan o Landyfriog* 1662 | *Cynull-eidfäwr* |
| *Llanbedr* | *Ty Evan David* | *Hyd.* 28 | | ,, |
| *Llanbadarn-odwyn* | *Morgan Howell yn nhy John Jones (Llwynrhys)* | *Hyd.* 28 | *Distawyd* 1662 | ,, |
| *Llanddewi-brefi* | *David Jones yn ei dy ei hun* | *Hyd.* 28 | ? | ,, |

(Wales under the Indulgence, p. 155—156).

Heblaw'r trwyddedau arbennig (particular) ceir rhyw bum trwydded GYFFREDIN yng Nghymru ac un ohonynt yw

"*License to David Jones to be a Congr. gen*$^{all}$ *Teach. of Pencarreg in Cardigansh. Octo. 28th.*"

Mewn cysylltiad a'r drwydded hon y mae'n ddiddorol cymryd catalog y Parch. Henry Maurice yn 1675 o'r holl eglwysi wedi eu crynhoi yn siroedd Cymru ynghyd ag enwau'r gweinidogion a swyddogion eraill yr eglwysi a geir yn y Broad Mead Records,—"*Cardiganshire. There are general parties of people professing godliness in this county, yet but one entire church in it; namely, that which meets at* LLAN(* * * *) *being the first original gathered church in this county, of the judgment commonly called Independent, but very moderate. Mr. David Jones, of* PEN(* * *) *is their pastor: Morgan Howells and Evan Hughes, elders: John Jones, elder elect: together with some deacons.*"

Fe lanwodd Mr. E. B. Underhill y bylchau yn LLAN(*badarnfawr*) a PHEN(*bryn*) a phrintiwyd hwynt felly yn Hanes Ymneilltuaeth yng Nghymru gan Dr. Rees heb arwydd yn y byd nad oeddent felly yn y gwreiddiol. Awgryma Dr. Thomas Richards yn gynnil yn ei gyfrol "Religious Developments" ac yn sicrach ar dudalen 116 o "Wales under the Indulgence" y dylesid darllen LLAN-(*bedr pont Stephan*) a PHEN(*carreg*).

Ond troi eto at y Cilgwyn Church Book (dyfyniadau Jeremy), darllenir,—

"*A List of such as were Members of the Dissenting Protestant Church of Christ, meeting at Ca'ronnen, Crugymaen, Llwyn Rhys, and Kilgwyn from the year* 1692 *to the year* 1698,

*David Jones*, *David Edwards* } *Pastors*

*Morgan Howel*, *David John Rees* } *Teachers*

*John Jones* } *Pres. gub.*
*Griffith Hugh* } *Pres. gub.*

O gymharu'r dyfyniad hwn a'r un cyntaf â chatalog Maurice ni chredaf na fedrir bod yn weddol bendant oherwydd nid oes amser mawr rhwng 1653—1659 pan enwir Eglwys Rees (neu Rice) Powell ac Evan Hugh yn Llanbedr a'r cylch fel Eglwys Sir Aberteifi a 1672

trwydded gyffredin i Ddavid Jones ym Mhencarreg a 1675 Catalog Maurice. Yn 1692 ceir dyfyniad o'r Cilgwyn Church Book ac yn Freedom after Ejection (1690—1692) tud. 145 ceir—

"*Pen Carreg*

| | | |
|---|---|---|
| *Mr. Dauid Jones*<br>*Mr. Dauid Edwards* | *Att Kellans in Cardiganshire*<br>*Att Pen Carreg in Cardiganshire : assistant to Mr.Dauid Jones aboue said.* | *Dead.* |

| | | |
|---|---|---|
| *Mr. John Jones*<br>*Mr Morgan Howell* | *Ancient usefull men yt assist in ye work of the Gospell in Cardiganshire.* | *Morgan Howell aged very poore* |

Rhoir y dyfyniadau hyn er gweld fod y personau hyn yn cydweithio yn hanner olaf yr ail ganrif ar bymtheg ym Mhencarreg. Cellan a'r cyffiniau. Ni wn i mo ystyr y gair *Dead* gogyfer a'r dyfyniad dan Ben Carreg, oherwydd ni pherthyn i Ddavid Edwards na David Jones. Gwnaeth David Edwards ei ewyllys ar Orffennaf 18, 1716 a phrofwyd hi ar Dachwedd 19, 1716, a rhwydd casglu felly iddo farw rhwng y ddau ddyddiad hyn yn 1716.

(Abermeurig Family J. H. Davies, Hist. Soc. of Welsh Trans, Vol. II).

Ar y llaw arall ysgrifenna y Parch. Evan Lewis y Cilgwyn a'r Cilgwyn Church Book o'i flaen cyn iddo fynd ar goll (gwel N.L.W. M.S. 2170 B.) fod y Parch. David Jones yn bedyddio yn y Cilgwyn yn 1704. Y mae'n anodd penderfynu parthed y David Jones—p'un ai David Jones a drowyd allan o Lanbadarnfawr (ac a ddywedir a fu farw o'r darfodedigaeth yn 1700) neu David Jones a drowyd allan o Landysilio, y llenor ond odid, a rhoir yr awgrym ei eni yng Nghellan.* P'un bynnag, yr un un a lafuriai ym Mhencarreg a Chellan. Er gweld hefyd fod Pencarreg yn nythle Anghydffurfiaeth yn fore, y mae "Presbyterianism in Carmarthenshire A.D. 1710 by Archdeacon Edward Tenison" yn awgrymiadol ac yntau'n dweyd fod yn agos i gan teulu ym Mhencarreg :—

"*Pencarreg : About 50 of the parishioners here frequent the Meeting House here without including those that come from Llanybydder. There are several preachers in their turns at this meeting but Evans of Carmarthen is supposed to be the licensed preacher.*" (Carm. Antiq. Notes Vol. 3, P. 29, 119 seq.).

*Deil Alex. Gordon, M:A. (ar dyst. R.J.J.) mai Jones, Llanbadarnfawr ydoedd, ond rywsut gwell gennyf i gredu i Jones o Landysilio, genedigol o Gellan, fynd i'w hen ardal.

Gyda llaw rhag inni dybio fod y Sectwyr yn lluosog iawn, y mae'n ddiddorol darllen Cofnodion y Religious Census 1676 fel y'u gosodir allan gan Dr. Thomas Richards yng Ngweithrediadau'r Cymrodorion am 1925—1926.

| Cydffurfwyr. | Pabyddion. | Anghydffurfwyr. |
|---|---|---|
| 155,656. | 1122. | 4445. |

*Dim ond* Un *Anghydffurfiwr am bob* 36 *o Eglwyswyr* !

O hen Eglwys Aberteifi a grynhowyd gan Rice Powell o 1653 i 1659,a fugeiliwyd wedi iddo gydffurfio gan ryw Ddavid Jones, Evan Hughes, John Evans, John Hanmer, Morgan Howell, ac eraill a drowyd allan yn ystod 1660—1662 y tardd hen Eglwys Cae'ronnen, a rywsut fe nodir penodau ei hanes gan yr adeiladau.

---

## Cyfnod I. (1654—1747).

Gwn am y Beiliau ac am ddau neu dri Cae'r onnen ond ni wn am dŷ David Hughes wrth ei enw o leiaf. Awgrymir codi'r adeilad cyntaf yma rywbryd rhwng 1661 a diwedd y ganrif ond nid oes sicrwydd.

Gyda gwawr y ddeunawfed ganrif fe geir Philip Pugh yma fel gweinidog gyda David Jenkins, Evan Davies ac eraill fel cynorthwywyr, ond bu farw y Parch. Evan Davies yn 1747 er iddo ymddiswyddo ddeng mlynedd yn gynt, a chodwyd capel newydd yng Nghae'ronnen.

Ni cheir i nodweddu'r cyfnod cyntaf ddim ond ysbryd Presbyteraidd gyda rhyw gymaint o feddwl rhyddfrydig tua'i ddiwedd, oherwydd maentumir fod Philip Pugh yn ei ddyddlyfr yn tystio fod ei gyd-weinidogion yn camu'n frasach nag ef ym myd diwinyddiaeth. Beth bynnag am hyn fe geir stori arall yn y Cilgwyn Church Book ac nid yw ond teg ei rhoi er rhwystro y camliwio.

Ar dudalennau 185—186 o'r Cilgwyn Church Book fel y dywed y Parch. Evan Lewis yn N.L.W. M.S. 2170 B. ceir " Deg Cyfeiliornad Antinomaidd " ac wedi'u nodi sylwa Mr. Lewis " a ellwch chwi farnu pa mor drist ydoedd ei yspryd ef, pan yn gweled fod pobl ei ofal megis y nodwyd yn cymmeryd eu harwain, nid i wyro at, ond i fynd lwyr eu pennau i'r fath sigle(oedd) a chorsydd echryslawn."

Nid oes amheuaeth nad Antinomiaeth oedd yn blino ysbryd Philip Pugh yn y Cilgwyn Church Book a hwyrach y gallasai ysgrifennu yn ei ddyddlyfr fod y gweinidogion ieuainc yn fwy mentrus ym myd diwinyddiaeth nag ef, ac os ydyw'n deg casglu oddiwrth nodiadau pregeth a thraddodiad, pregethu ymarferol ac efengylaidd oedd ei bregethu ef.

---

## Cyfnod II. 1747—1846.

Gyda chodi capel Cae'ronnen yn 1747 deuwn i dir diogelach ac y mae dyddlyfr y Parch. Timothy Davies (1709—1771) ar gael er na chynorthwya fawr ohonom i nodi llwybr ei datblygiad ond gwyddys fod y Parch. Timothy Davies tua diwedd ei oes wedi cael cynorthwy y Parch. David Lloyd, Llwynrhydowen a noda'r ffaith hon fod y gynulleidfa a'i hwyneb at Ariaeth, ond fe'i rhwystrwyd ar fyr. Ychydig yn ddiweddarach oherwydd gwahodd Lloyd eilwaith aeth yn rhwyg yng Nghilgwyn ac ymadawodd rhyw hanner cant o aelodau gan ffurfio yn 1772 Eglwys Ebenezer Llangybi. Dywed y rhwyg yn groyw fod y pregethu yn Ariaidd. Y mae'n anodd dyfalu dylanwad Arminiaeth ac Ariaeth Jenkin Jones a David Lloyd ar unllaw a dylanwad y Diwygiad Methodistaidd ar y llaw arall ond gwyddys fod y Diwygiad wedi chwalu llawer cynulleidfa gymysg.*

Gyda'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, y mae'r cyfnewid i'w deimlo. Cauwyd y Parch. Thomas Jones, Ffaldybrenin o bulpud Caeronnen am ei fod yn rhy galfinaidd tua 1811—1813 a'r canlyniad oedd ymadael o ddeuddeg aelod i ffurfio Eglwys Capel yr Erw, Cellan.

Ni symudai Cae'ronnen yn ddigon cyflym i gael ei gosod ar restr Eglwysi Undodaidd y Parch. George Harris yn 1819. Dyma'r adeg y daeth y Parch. John Jeremy o Eglwys Annibynnol Salem Llanddyfri, a dengys hyn mai cyfnod o gyfnewid ydoedd yn hanes Cae'ronnen a'r gweinidog, ac erys y syniad ynof fod a fynno rhwyg 1811/13 a'r ymadael o hen gapel Cae'ronnen. Y mae heddiw cystal ag erioed er wedi gwasanaethu am 80 mlynedd fel ysgubor.

---

*Nid oes betruster nad oedd Cilgwyn a Chae'ronnen yn flodeuog yr adeg hon oherwydd ceir yn Thompson's List 1773,—

" *Cilgwyn and Caeronnen, 2 Churches."

(*Marked with an asterisk as being too large congregations, 100 communicants each.)

Diddorol dros ben yw hen lyfr cyfrifon Jones, Laulas a rydd enw pob pregethwr a fu'n pregethu yng Nghae'ronnen o 1840 i 1870—cyfnod o ddeng mlynedd ar hugain a cheir llawer problem i'w dadrys yma. O 1840 i 1846 yr enw amlaf a geir yma yw eiddo Evan Lewis, ond pa Evan Lewis ?

Yr awgrym naturiol ydyw'r Parch. Evan Lewis, Cilgwyn, a ordeiniwyd yn 1820 ac a fu farw yn 1864 ond ni wn i fod y cysylltiad rhwng Caeronnen a Chilgwyn mor agos a hynyna wedi'i dorri tua diwedd gweinidogaeth Timothy Davies tua 1817. Yr awgrym arall yw Evan Lewis, Hwper, ac fe'i ceir dro yn y llawysgrif fel Evan Lewis, Llanwnen, a gwyddom mai genedigol o Lanwnen ydoedd. Yn 1824—5 yr oedd yn weinidog Ystrad : yn 1826—31 yr oedd yn cadw ysgol yng Nghaerfyrddin : yn 1831—1833 yn Ystrad ac wedi hyn yn y Cribin lle yr ymbriododdd a Miss Rachel Evans yn 1843. Yn 1848—51 yr oedd yn weinidog eilwaith ym Mlaengwrach. Fe welir felly fod Evan Lewis yr adeg hon yng Nghribin. Ond troi i'r Lewin's Mead M.S. (Folio a/c Bk. 1809—1874) fe geir

1828 Jan. Evan Lewis of Carmarthen 1829 (Feb) 1830 (Feb.). 1831 (Jan.) Dec. 1832 (no locality) Dec. 1833 Ystrad. 1849 (No locality) 1850 (No locality) 1851 (No locality) 1852.

O'm rhan fy hun credaf mai Evan Lewis yr Hwper ydoedd ond ni fedraf fod yn bendant.

O geisio dyfalu traddodiad yn y fro—o ddarllen yr ysgrifen ar yr hen bulpud—o geisio deall yr holl *drend*, ni chredaf fod lle i amau nad oedd y gynulleidfa yn Undodaidd pan agorwyd y capel newydd yn 1846, ac Undodiaid a fu'r gweinidogion oddiar hynny hyd yn awr.

---

## Cyfnod III. 1846—1925—1929—

Gyda'r capel newydd (1846) croeswn drothwy cyfnod newydd—y cyfnod Undodaidd a sicr fod yr achos yn flodeuog oherwydd erbyn 1860 fe deimlid angen oriel ac yn Ymofynnydd 1861 (Mai, tud. 122) ceir awgrym fod y gynulleidfa wedi gosod oriel i fyny. Am y blynyddoedd cyntaf gofalwyd am y gynulleidfa gan y Parch. T. J. Griffiths (Tau Gimel) y pregethwr derbyniol, y cofiannydd medrus, y golygydd cyrhaeddbell, yr emynydd syml ond a rhyw ysbryd aflonydd afradlon yn ei ysu. Dywedir na fu yma fel gweinidog ond gwell gennyf gredu iddo weinidogaethu yma hyd

ganol haf 1851 a theimlir fod y Parch. David Evans, B.A. yn dod yma'n amlach amlach, ac ar Orffennaf 8, 1851, y pregethodd Tau Gimel y tro diweddaf dan 1855 o leiaf. Collir golwg arno am ryw bedair blynedd—Symudodd y wraig a'r teulu i'r Amerig—ond er cael cofnodion am ei fynd i'r Amerig daliai'r diweddar Brifathro W. J. Evans, M.A. na fu ymhellach na Lerpwl. Gyda David Evans ac R. C. Jones arweiniwyd y gynulleidfa o Undodiaeth Priestley i Undodiaeth Parker a Martineau a esyd sedd awdurdod ym myd crefydd nid mewn llyfr nac eglwys ond yn y dyn ei hunan a dyna nghais innau—dal y lamp yng nghynn a chael dyn i fyw ei grefydd yn ei fywyd bob dydd.

Nid rhesymoliaeth oer mo Undodiaeth ond gwres defosiwn y teidiau yn gwresogi'r galon a'r meddwl a oleuir gan wyddor a phob gwybodaeth, ie, gan olau Duw ei hunan, nes ennyn nwyd ynom am dduwioldeb a bywyd o gariad.

Adnewyddwyd y capel yn 1925 a chyda phob adeiladu ac adnewyddu yn hanes Cae'ronnen dechreuir cyfnod newydd. Beth fydd hanes y cyfnod nesaf ni wn i, a chaiff pob un ddyfalu drosto ei hun ond y mae rhywbeth yn ddiddorol—yn rhamantus mewn pennod o hanes crefydd a ymestyn am 275 o flynyddoedd nes clymu cynulleidfa Cae'ronnen â dyddiau Cromwell, a da cael bod o linach gwŷr yn ofni Duw ac yn caru rhyddid yn angherddol.

(Carwn gael fy nghywiro a'm cynorthwyo. Anfoned unrhyw un ataf a wel wâll neu a ŵyr ragor).

O.

# *Cinio Nadolig.*

(BREUDDWYD NEU HUNLLEF).

FORE Nadolig cerddwn i Swyddfa Golygydd yr YMOFYNNYDD er cydio yn fy swydd, a phe digwyddech ddod i Lanbedr i chwilio am y swyddfa a cherdded o stryd i stryd ni ddeuech o hyd iddi. Gallasech ddweyd am Lanbedr fel y dywedodd y gweledydd am ddinas Duw ond newid un gair,—"Ac *offis* ni welais i ynddi." Cerddwn i sereh hynny fel Golygydd (os ydyw golygydd yn cerdded yn wahanol i ddynion eraill) ac yr oedd yno swyddfa i mi. Ynddi bwriadwn freuddwydio breuddwydion, gweld gweledigaethau a chynllunio YMOFYNNYDD gwerth ei ddarllen pe caniateid imi orchymyn *pen* llenor a *phoced* y neb nad yw lenor. Medrid gwybod fy mod i wedi fy nyrchafu. Ni thorsythodd yr un

corach o dderbyn yr O.B.E. yn fwy na myfi. Teimlwn fy hun yn *rhywun*. Onid oeddwn Olygydd Cylchgrawn a'r gair *press* yn *Open Sesame* i gyfrinachau'r byd? Nid pulpud mwy ond y Wasg. Nid pregeth ond erthygl mewn llythyren fras. Yr oeddwn wedi deisyf droion am gyfleu i ddweyd a fynnwn am bawb heb fy mod dan orfod i gnoi nhafod na bwyta fy ngeiriau. Y mae'r cyfleu gennyf!! Fe ddaw awr wan yn hanes pob dyn a chynt neu hwyrach fe geir y dwymyn fel plentyn y frech goch. Yr oeddwn innau yn ei chanol ond heb wybod hynny. Pan godo'r gwres y teimlir y croengwyddau. Teimlwn innau fy hun yn *rhywun mawr* a dioleh na wyddwn nad oeddwn i neb. Eisoes yr oeddwn wedi prynu gwerth coron o "bensilau glâs" ac wedi naddu blaen i hanner dwsin ohonynt. Yr oedd rhyw ddiawl bach wedi pwnio'r syniad i'm pen mai dyma arf neu offeryn Golygydd. Y mae ysgrif a marciau glâs arni fel corff dan ei gleisiau. Am fasged papur *wast* (a chredwn mai *wast* oedd pob papur i Olygydd) peidiwch a siarad, yr oedd yn ddigon mawr i alw *chwi* arni. Dychmygwn fy hun mewn myfyrdod uwch ei phen ac yn gofyn "Faint o gynyrchion anfarwol gwir athrylith a gwsg yma eu hun olaf cyn cael eu taflu i'r llyn o dân a brwmstan?" Tybiwn ei bod yn werth bod yn Olygydd—am ddiwrnod o leiaf!! Credwn fod gennyf rhyw allu hollalluog bron a dim gwaith ond defnyddio'r pensil glâs a llanw'r fasged.

Dyna'r meddyliau wèai trwof wrth gerdded fel Golygydd am y tro cyntaf, ac wedi cistedd mewn cadair yn yr offis, meddyliais cyn bod yn gwrtais y dylaswn wahodd yr hen Olygydd a'i Ohebwyr i ginio Nadolig—cinio o ffarwel a chinio o roesaw. Yr oeddwn yn foddlon gwario cyflog blwyddyn fel Golygydd er gwneud y peth yn deilwng ond gyda llaw ni fuasai hynny yn fawr o gamp wedi'r cwbl. Anfonais y gwahoddiad. Daeth yr awr ginio a'r hen Olygydd gyda hi. Daeth ond wrtho'i hun! Yr oedd yma gadeiriau gwâg a neb ar ginio ond ni'n dau—yr hen a'r newydd! Siaradem am y tywydd, iechyd y brenin a phopeth ond yr YMOFYNNYDD. Wedi yfed iechyd "Y Brenin! Duw gadwo'r Brenin!" gofynnais iddo gynnyg y llwnc-destun "Gohebwyr yr YMOFYNNYDD"! Gwnaeth hynny, ond yr oedd rhyw leithder yn ei lygad a chofiwn am gyfflwyno graddau'r brifysgol i fyfyrwyr yn ystod y Rhyfel Mawr—a'u cyfflwyno *in Absentia*. O dipyn i beth cawsom sgwrs calon wrth galon. Gofynnais yn wirion iddo am restr a chyfeiriad gohebwyr presennol yr YMOFYNNYDD ac wedi enwi'r dynion dieithr, os dieithr hefyd, megis Anthropos, Simor, Sarnicol, W. Edwards, Rees a dau neu dri eraill dangosodd imi ei gyfrolau o'r YMOFYNNYDD ac enw priod pob ysgrifennydd wrth ei erthygl. Wedi edrych, dyellais a rhois gic i'r fasged fawr i'r gornel oherwydd

nid ymddangosai y buasai ei heisiau arnaf. Yr wyf wedi bod mewn modur a'r *tyre* yn *bursto* a'r wheel yn *fflat*. Felly finnau. O'r hyn leiaf yr own yn ddigon *fflat*. Awgrymais yn garedig wrtho o'm hadnabyddiaeth ohono er yn blentyn col ei fod braidd yn rhy bigog o Olygydd ac yn gwneuthur *cawdel* yn aml. Torri cwlwm ac nid ei ddatod, a sgrafello hyd yr asgwrn yn hytrach na defnyddio ychydig diriondeb bonheddig a thynnu llaw dros y war gyda'r graen. Gwenodd dyna i gyd.

Codais a rhois y pensilau glâs yn y drâr dros y golwg gan obeithio nad ydoedd wedi'u gweld, ond yr oedd dawns y llygad yn dweyd yn amgen.

"Oni chawsoch bob help posibl?" gofynnais.

"Do, pob help *posibl*" atebai. "Cefais yr un help a chyfrif popeth yn onest ag a gafodd fy rhagflaenwyr. Awgrymai R.J.J. wrthof unwaith mai nid Golygydd oedd eisiau ond *producer*—dyn a fedrai ysgrifennu'r YMOFYNNYDD bob gair ei hunan pe bai galw, ac yr wyf yn ei goelio bellach."

Nid atebais mohono oherwydd gweld ohonof gysgod William James, R.J.J., Hathren, Owen Evans, T.T., Gwilym Marles ac eraill yn pasio heibio ac ni fedrwn lai nag ochneidio o feddwl eu bod wedi mynd—ie *wedi mynd*!

"*New brooms sweep clean*," meddai'r hen Olygydd, "ac y mae gennych chwi gynlluniau newydd. Gallwch ddibynnu ar y bobl ddieithr yn eu tro. Nid oes ball ar eu natur dda na'u dawn. Buont yn frawdol i mi. Gallwch ddibynnu hefyd ar D.E. Y mae'i ysgrifau melys a llithrig yn dod fel gwe'r copyn allan o hono ef ei hun a bydd farw yn yr *harnes*, ond pwy wedyn?"

"Y mae gennyf rai cnwau hyd yn oed yn Sardis," atebais. "Yn ystod y Nadolig darllenais lyfr newydd John James Evans, M.A., o Abergwaun, "Dylanwad y Chwyldro Frengig ar Lenyddiaeth Cymru" (Hugh Evans a'i Feibion, Lerpwl; pris 5/-) ac wedi'i ddarllen o glawr i glawr gosodais J.J.E. ar restr fy nghohebwyr, oherwydd er ei fod yn byw yn Nyfed medr o leiaf gadw ffenestri'i enaid yn agored tua'r YMOFYNNYDD. Dyna Cledlyn y prifardd. Sibrydir iddo gael addewidion dirif cyn iddo wrthod yr Olygyddiaeth oherwydd amgylchiadau na rwystrant mohono i gynorthwyo o leiaf, a disgwyliaf wrtho. Y mae gennyf *glaim* ar Lywydd y Gymdeithas. Disgwylir iddo ysgrifennu'n aml aml. Ni thâl yr esgus fod ei Gymraeg yn rhydu ac yntau'n gymaint critig o Gymraeg y Perlau Newydd. Ar y gororau y mae aelod o Gaeronnen yn wr

gradd dwbwl o Brifysgol Cymru—y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D. a medrai roi inni erthyglau gwerth ei darllen ac adeiladol ac yntau'n medru Cymraeg cystal.

Medr Jones Dolgerdd daflu golau'r "New Thought" ar lawer problem lwyd yn ei ymneillduaeth a phe caem y Cynarolygwr Thomas o Ferndale i ysgrifennu pwt o lith mor ddiddorol a'i lythyron i Ffatri'r Waen byddem ddiolchgar."

Ni ddywedai ddim ond chwareuai gwên lon ar ei rudd a gofynnais iddo "ond beth am danoch chwi?"

Nid atebodd dro hir ond cefais ei addewid i ysgrifennu hanes Capeli'r Enwad yn Sir Aberteifi ar un *condition*—fod pob cynulleidfa yn anfon *block* o'u capel. Oni ddaw'r block ni ddaw'r erthygl chwaith.

Diolchais iddo a gwyddwn y medrwn ddibynnu ar ei addewid. Cododd i fynd ac estynnodd ei law gan ddweyd,—"Breuddwydiais innau freuddwydion dair blynedd yn ol ond y maent wedi mynd. Cawn weld pa sawl un o'ch breuddwydion chwi a ddaw i ben ymhen y deuddeg mis. Hwyl fawr a Blwyddyn Newydd Dda."

* * *

Dihunais. Yr oeddwn wrthof fy hun a'r tân yn llawer duach na'm het orau. Nid oedd dim yn aros ond eco annaeraol y llais yn dweyd wrthof i ac wrth bawb

BLWYDDYN NEWYDD DDA!!

# *Taith wrth y Tan.*

GAN ANTHROPOS.

DAW adeg i fywyd dyn pan fydd rhywbeth anelwig, anesmwyth fu yn llechu yn nyfnderau ei bersonoliaeth yn ymwthio i'r wyneb, ac yn gyrru popeth arall, dros dro, i'r encilion. Y "rhywbeth" hwnnw a deyrnasa ar y pryd. Ei awr ef ydyw. Ni ellir darllen na meddwl am ddim arall. Arweinir ni allan o'r rhigolau cyfyng i'r "dragwyddol heol," a pha un ai yn y corff neu allan ohono yr ydym, ni wyddom ac ni ofalwn ddim.

Felly heno. Yn nhermau materol y pwnc yr wyf yn eistedd wrth y tân, a muriau'r ystafell fechan yma yn cau yn daclus o'm cwmpas. Cau allan y nos, y glaw, a'r gwynt. Mewn ystyr arall nid wyf yma o gwbl. Rhodiaf dan awyr lâs, a chlywaf gân yr ehedydd.

"A'r gwanwyn oedd hi—gwanwyn ym mhob man."

Cyn i'r "ysbryd" fy hudo i ffwrdd darllennwn lyfr ar "Ddartmoor." Y mae'r awdur yn sôn am y grug ar y llechweddau, a'r gwynt yn ymdaith heibio. Y grug a'r gwynt. Rhaid i'r grug wrth y gwynt—y corwynt cryf. Ni allant fyw ar y gwastadeddau llonydd. Plant yr uchelderau ydynt, yn yfed gwynt y nefoedd. Ond am un o "gymeriadau'r" llyfr yr oeddwn yn meddwl, wedi ei ddodi ar y bwrdd. Arlunydd wedi cefnu ar ddinas Llundain i ardal encilion ar ymylon Dartmoor. Awyddai am ddod i gyfrinach a natur yn ei gwylltineb cynhenid, o dan gyfaredd y wawr a'r gwyll.

Ond, ambell awr, deuai "ysbryd" y gorffennol ato, ac awyddai am ddychwel i ganol berw'r brifddinas. Dodai'r canfas o'r neilltu. Eisteddai yn ei gadair yn y bwthyn gwledig yn Nartmoor. Trefnai ar gyfer y daith: craffai ar amser y tren. Hiraethai am roddi tro drwy oraclau celf, a cherdded gyda glan Tafwys i wylio goleuadau Llundain, tua'r nos. Yna, talai ymweliad a rhai o'i hen ffrindiau. Deuai'r oll ger ei fron. Ac eto, ar ddiwedd y breuddwyd, nid oedd wedi syflyd o'r gadair am y tan!

Alegori brydferth a gwir. Onid oes gan bawb ohonom ein "Dartmoor"? Yno yr ydym yn ceisio gwneud ein gorchwyl, ac yn teimlo'n flinedig ar ddiwedd dydd. Ambell dro, fodd bynnag, awn am daith yng ngherbyd breuddwyd i'r ddinas wen. Ac yno cawn gyfarfod hen ffrindiau, hen olygfeydd.

"Dim ond rhith a breuddwydio," ebe'r dyn oer, ac anfarddonol. Ie, ond a wyddoch chwi, wr da,—y mae *medru* breuddwydio yn rhywbeth. Ydyw, yn sicr. Y mae'r ddawn i freuddwydio yn un o fendithion gorau bywyd. Gallai Jacob fod heb ddim ond carreg yn obennydd iddo. Pa waeth! "Ef a freuddwydiodd." Gwell hynny na thrymgwsg yr anifail. Yn yr oriau hynny, sangwn ar diriogaeth y siwrnai. Clywn y clychau arian, ac nid ydym yn cofio am siom na phoen.

Diolch am y "munud gwyn." Ni ellir rhoddi archeb am dano. Gallwn ei ddisgwyl, ei roesawu, ac ildio i'r dylanwad.

Y mae "ysbryd" mewn dyn, ac nid ydyw hwnnw yn heneiddio. Ni thywylla ei olygon: ni phalla ei nerth. Erys yn ieuanc a hoyw o hyd. Dan rin ei hudlath yr ydym yn gwneud gorchestion na ŵyr ein cymydog agosaf ddim am danynt, gallwn hedfan i'r gorffennol, ai weled yn dlysach nag erioed. Y mae lliwiau atgof yn tyneru pob golygfa. Gwyn ein byd pe gallasem eu trosglwyddo i'r canfas, neu eu dodi mewn iaith ac ymadrodd. Ni allwn, llithrant o'n gafael fel gwe'r gwawn. Ni ellir eu daearoli. Ond nid coll amser ydyw eu croesawu, a hynny'n ddistaw a syml. Os am letya angylion, rhaid gwneud hynny yn "ddiarwybod." Ac nid yw'r angel yn aros yn hir. Daeth un at Bedr i'r carchar, yn "ddiarwybod" iddo ef. Datododd ei gadwyn, arweiniodd ef trwy'r porth haearn i'r hedd, yna—diflannodd, ond nid cyn cyflwyno ei neges. "Gwisg dy sandalau," ebe'r angel. "Y mae gwaith

yn dy ddisgwyl." Yr angel yn mlaenaf—gwaith wedyn. Y mae dyfodiad yr angel yn dadebru'r meddwl, ac yn ei gyfaddasu i wisgo sandalau dyletswydd a gwaith.

Ple yr ydym? Ie, gan gofio, yn eistedd wrth y tân, ac yn gwrando swn y gwynt a'r glaw. Ond daeth rhyw anesmwytho i'n meddiannu,—tebyg i'r arlunydd hwnnw yn Dartmoor. Awyddem am fynd i Lundain. Cyrraedd yno yn y prynhawn. Rhoddi tro trwy Fleet Street—stryd yr inc!—a lled-dybio ein bod yn gweled Johnson a Boswell yn cerdded fraich-ym-mraich—" Let us take a walk down Fleet Street." Yna, mynd am dro gyda'r afon Tafwys cyn belled a Chelsea, a syllu'n hir ar gerf-ddelw Carlyle.

Ond yn y man, daeth yr angel—neu, yn hytrach, yr angylion heibio, gan sibrwd—"Gwisg dy sandalau." Y mae'r cwrdd darllen yn disgwyl."

Dihunais, yn y gadair ger y tân.

# *Alltyblaca.*

YMDDISWYDDODD y Parch. Lewis Williams o weinidogaeth eglwys Alltyblaca a'r cylch ar ddiwedd y flwyddyn 1928. Ar ôl ugain mlynedd o wasanaeth bendithfawr a llwyddiannus yng Nghiliau a Rhydygwin, gweithiodd Mr. Williams gydag egni dihafal dros yr Achos Gorau yn y cylch hwn hyd nes i'w iechyd dorri i lawr yn 1926, a gofid calon ddiadelloedd Alltyblaca, Capel y Bryn, a Chwmsychbant ydyw gweled eu bugail ffyddlon a didwyll yn gorfod ymneilltuo oherwydd ei lesgedd corfforol.

Caffed fwynhau nawnddydd hir a thawel eto: ac wedi i'w iechyd gryfhau, gwyddom na bydd efe byth ar ol o wneuthur a allo yn y winllan. Teimla eglwysi'r cylch yn bryderus ynglŷn a chael olynydd teilwng i ddau ŵr mor rhagorol a'r diweddar Hybarch John Davies a'r Parch. Lewis Williams, a chyn gwneuthur eu dewisiad o blith y myfyrwyr sydd yn awr a'u hwynebau ar y weinidogaeth, carent wybod a oes yna weinidog profiadol,—llydan ei gydymdeimlad a rhyddfrydig ei syniadau crefyddol,—yn fodlon dyfod i'w bugeilio. Gwyddom am lawer o wŷr,—rhai ohonynt mewn gwasanaeth yng Nghymru, a rhai y tuallan iddi,—y byddai yn fendith i ni eu cael i'r cylch, ac os oes un ohonynt ag ynddo duedd i newid ei le, byddem yn falch pe bae yn gohebu yn gyfrinachol ar y pwnc ag Ysgrifennydd y Gymdeithas, y Parch. E. O. Jenkins, Llwyn Rhyd Owen, Llandysul.

CLEDLYN DAVIES.

# *Dalennau o'm Dyddiadur.*

"YDYW ysbrydegaeth yn gredadwy?" neu "Ydyw honiadau ysbrydegwyr wedi'u profi'n wir neu eu gwrthbrofi?" yw'r mater a fu tan drafodaeth yn un o bapurau Llunden—y *Daily News*—yn yr wythnosau diweddaf. Nid yw'r drafodaeth wedi'i dirwyn i derfyn eto—adeg ysgrifennu'r llinellau hyn. Yn ol pob arwydd, nis dirwynir i derfyn am beth amser. Trafodaeth nodedig o ddiddorol ydyw, nid yn unig ar gyfrif newyddeb y pwnc, ond hefyd ar gyfrif safle'r personau a fu'n cymryd rhan ynddi.

Y cynllun a fabwysiadwyd gan awdurdodau'r papur i gario'r drafodaeth ymlaen oedd dewis un o safle uchel ym myd llên ac addysg i ysgrifennu llith yn ddyddiol naill ai dros neu yn erbyn neu o unrhyw safle arall o ddewisiad yr awdur. Bod y drafodaeth wedi creu diddordeb a wneir yn amlwg gan y gohebiaethau lluosog a ddylifa i swyddfa'r papur oddiwrth ddynion a benywod o bob math ar safle gymdeithasol ac o bob parth o'r deyrnas—ffafriol, anffafriol, a chanolog.

Hyd yn ddiweddar iawn, diarhebu ysbrydegaeth ac ysbrydegwyr a fu'r duedd gyffredin. "Ffolineb—sothach—ynfydrwydd" oedd rai o'r termau a ddefnyddid i ddisgrifio'r peth neu'r personau. Ystyrrid pwy bynnag a ddywedai air yn ffafr neu a gredai'r syniad fel wedi dechreu gwirionni. "Rhaid ei fod wedi colli'i synwyr," meddid. O ran hynny, dyna sut dderbyniad a roddir i bopeth newydd. Ni ddiangodd hyd yn oed Iesu rhag cael ei gyfrif yn orffwyllog. Y mae hyn ar gael ei newid: y mae'r pwnc o ysbrydegaeth wedi dod yn "bwnc y dydd." Ac i'r papur a ennwyd yr ydys i ddiolch am hynny.

Dyma enwau rhai o'r ysgrifenwyr—Robert Blatchford (y newyddiadurwr adnabyddus), Syr Oliver Lodge (un o ddysgedigion pennaf yr oes), I. M. Robertson, yntau hefyd yn adnabyddus fel dyn cyhoeddus ac un o bleidwyr aiddgaraf y Gymdeithas Resymolaidd, H. P. Hewitt (y bargyfreithiwr enwog), Iarll Russell, Mrs. Philip Champion de Crespigny, Mrs. Bradlaugh Bonner (merch y diweddar Mr. Bradlaugh), Arglwydd Gorell, Hillaire Belloc, Aldous Huxley, Proffeswr Charles Richet. Enwau pobl o safle uchel yn eu gwahanol gylchoedd ydyw pobun o'r uchod: a hawlia a ddywedant y sylw a'r ystyriaeth fanylaf.

Dadleu rhai yn gryf yn erbyn, megis, Robertson, Iarll Russell, Mrs. Bradlaugh Bonner: saif eraill ar fath ar dir canol—nid amheuant y posibilrwydd o ddal cymundeb ag ysbrydoedd rhai ymadawedig, eithr nid ydynt eto wedi'u hargyhoeddi fod hyn eisioes yn ffaith, yn ol a hawlia ysbrydegwyr: a dadleu eraill, heb un petruster,

yn ffafr, megis, Syr Oliver Lodge, Hewitt, Mrs. de Crespigny, Arglwydd Gorell, ac Estelle W. Stead, ac eraill a ellid eu henwi.

"Dywedaf yn ddibetrus," ebe Mr. Hewitt, "fod honiadau ysbrydegwyr wedi'u profi'n wir tu hwnt i bob amheuaeth resymol." "Fy ateb," ebe Mrs. de Crespigny, "ydyw—bod ysbrydegaeth wedi'i phrofi'n wir." Seilia Arglwydd Gorell ei gred ar "brofiadau yn ei deulu ef ei hun ac yn eiddo cyfeillion agos iddo na ellir eu hesbonio ond yng ngole ysbrydegaeth." "Yr wyf wedi ymddiddan â nhad," ebe Miss Estelle Stead, merch yr adnabyddus W. T. Stead, a gollodd ei fywyd pan suddodd y *Titanic*. Diangen difynnu rhagor.

Beth, ynte, am y drafodaeth? I ryw fesur, anfoddhaol—anfoddhaol yn yr ystyr yr erys y mater yn hollol yn yr unfan a chyn dechreu'r drafodaeth. Dyna'r effaith, o leiaf, cyn belled ag y mae fy mhrofiad i yn mynd. Y mae ynof duedd gref yn ffafr credu. Yn wir, credaf heb rith o amheuaeth na bydd marw un bywyd. "Nid oes marw," ebr un o'n beirdd; "nid yw'r hyn a elwir yn farw ond trosiad" o un ffurf o fywyd i ffurf arall. Da iawn a fyddai gennyf pe gallwn, ymhellach, gael fy argyhoeddi ei bod yn bosibl, tan amgylchiadau neu amodau neilltuol, i ddod i gyffyrddiad cyn agosed â rhai sydd wedi blaenu ag i fwynhau cydsiarad â hwy.

Sylwais yr erys honiadau ysbrydegwyr heb eu profi na'u gwrthbrofi. Ond, yr un pryd, rhaid cydnabod na ellir yn hawdd esbonio rhai o'u profiadau ond yngole ysbrydegaeth. Yn ei lyfr adnabyddus "Raymond," er enghraifft, dywed Syr Oliver Lodge ei fod wedi'i fodloni tu hwnt i amheuaeth ei fod wedi mwynhau ymddiddan â'i fab Raymond, a laddwyd yn y "Rhyfel Mawr." Twyll i gyd, ebe rhywun. Na, nid felly: ni ellir cyhuddo dyn o safle Syr Oliver o dwyll; ac nid gorchwyl hawdd iawn a fyddai twyllo dyn o'i wybodaeth a'i feddwl diwylliedig ef. Beth, ynte, yw'r esboniad? Wn i ddim. Dyna'r cwestiwn yr hoffwn gael ateb iddo. Hoffwn wybod.

Llyfr hynod ydyw "Raymond"—hynod ar gyfrif ei awduriaeth a'i gynnwys. O'i ddarllen mewn ysbryd diragfarn ac ymholgar, daw rhyw deimlad o ddifrifwch i'r fynwes a gyfyd y darllenydd i ryw awyrgylch ddigyffelyb o aruchel; a phair iddo ofyn cwestiwn ar ol cwestiwn fel y dirwyn y stori ymlaen o ddalen i ddalen tua'r terfyn. I mi, erys y cwestiynau yn gwestiynau heb atebion—o leiaf, heb atebion boddhaol a phendant; ac erys y llen rhwng y presennol a'r dyfodol yn len heb un rhwyg ynddi i gael cipolwg ar yr hyn y sydd y tu arall. Efallai mai dyna sydd oreu. Ond—gwnai sicrwydd gryn lawer o wahaniaeth. Gwnai, fe wnai wahaniaeth mawr iawn.

O daflu golwg dros y drafodaeth dan sylw, tybiaf mai llith y Proffeswr Richet a adawodd yr argraff oreu ar fy meddwl i, yn

benmaf. ar gyfrif y ffaith y gwelaf yn a ddywed yr ysbryd iawn i ymdrin â'r mater. "Y mae llawer o ddigwyddiadau a bair gryn flinder ac a hawlia ymchwiliad gonest. Chwiliwn am y gwir, nad beth y canlyniad. Na fyddwn or-hygoelus, ar un llaw: ac ar y llaw arall, na wrthodwn gydnabod y posibilrwydd i ysbrydegwyr. ryw ddydd, i fod yn abl i roddi inni brofion a'n hargyhoedda o fodolaeth byd o ysbrydoedd ac o oroesiad personoliaeth." Y mae'n anodd curo'r ysbryd tu cefn i'r geiriau hyn.

Hyd y daw'r profion y crefir am danynt, gallwn syrthio'n ol ar ffydd—y ffydd y rhoddir mynegiad mor swynol iddi gan Wilym Marles, a gân ar ol Tennyson, "O'm hyder yw mai rhywfodd da fydd diwedd pob dacarol foes, pob poen, a phob ewyllys groes, amheuaeth, a phob dynol bla." (Fel y mae, os gwelwch yn dda, Mr. Gol.). Ond wedi'r cyfan, "beth wyf fi? Baban yn crio . . . heb un iaith gennyf, onid cri!"

D.E.

# *Priodasau.*

TACHWEDD 14, 1928, yng Nghapel y Ciliau, gan y Parch. D. Conwil Evans, unwyd mewn glân briodas James Evans Davies, mab Mr. a Mrs. Evan Davies, Foelallt a May Evans, merch Mr. a Mrs. Evans, Buanllwyd, Cwmtawe. Dymunwn fyd gwyn, hir oes a dedwyddwch i'r pâr ieuanc.

AR yr 28ain o Dachwedd, yng Nghapelygroes, ger bron D. Evans, cofrestrydd, a chan y Parch. D. Evans, D. Morgan Rees, Brynderw, ger Allty-blaca, a Rachel Anne Davies, Plasbach, plwyf Llanbedr. Bywyd o wynfyd a fo'n rhan iddynt.

RHAGFYR 14, yn Nghapelybryn gan y Parch. T. O. Williams, M.A. ymhresenoldeb y cofrestrydd, David Evans, unwyd mewn glân briodas Tom Evans, Bryndelyn (nawr o'r Bryn, Llanybyther) a Bessie Davies, Tanrallt, Cribyn a Chwrtnewydd. Gwenau'r nef a fo iddynt bob cam o'r daith.

# *Marwgofion.*

RHAGFYR 4, yn 10 mlwydd oed bu farw Evan Emrys, mab bychan ffraeth a siriol Mr. a Mrs. Evans, Glynbedw, Ram, ger Llanbedr, ar ol cystudd o ychydig ddiwrnodau. Aeth dan driniaeth llawfeddyg ond er pob gofal a medr ehedodd ei enaid at Dduw yr hwn a'i rhoes. Claddwyd ym mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y tŷ a phregethwyd yn y Capel gan y Parch. Eirug Davies, B.A., B.D., (Soar), ac ar lan y bedd gan y Gweinidog. Gadawodd dad a mam i alaru o golli eu Hemrys bach.

SADWRN, Rhagfyr 8, Mary Jones, Clettwr Vale, Talgarreg, yn 86 oed. Claddwyd y dydd Mercher dilynol ym mynwent Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd yn y tŷ a'r capel gan y Parch. E. O. Jenkins, ac ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr. Gadawodd mewn galar ddau fab, dwy ferch—y rhai fu yn rhyfeddol o ofalus am dani ym mlynyddoedd ei henaint—brawd, a dwy chwaer, un o ba rai sydd yn yr Amerig. Collodd ei phriod yn agos i 50 mlynedd yn ol pryd nad oedd

wedi bod yn briod ond am ychydig flynyddoedd. I fagu ei phlant ac ymladd brwydrau bywyd dangosodd wroldeb mawr a gweithiodd yn galed a thrwy hynny llwyddodd i ddwyn i fyny deulu braf a dedwydd. Cadwodd yn hynod ysbrydol ac ieuanc hyd y diwedd a phleser nid bychan oedd cael awr neu ddwy yn ei chwmni. Hoffai gwmni'n fawr iawn. Llonnai ei hysbryd drwyddo pan alwai ryw gyfaill neu gyfeilles yn y tŷ. Yr oedd ei siarad i gyd yn ddiwenwyn a diniwed. Fel y mwyafrif o'r hên bobl hoffai sôn am yr hên ddyddiau a'r hên bethau. Bydd yr aelwyd yn wâg iawn hebddi a'r ardal hefyd. Cydymdeimlwn yn fawr a'r plant ar ol colli mam mor annwyl. Yr oedd yn drwm iawn ei chlyw ers blynyddau lawer ac yn herwydd hynny ni fynychai'r gwasanaeth ym Mwlchyfadfa fel y gwnai gynt, er hynny yr oedd y lle—y capel a'r fynwent a'r achos yn agos iawn at ei chalon. Cymerai ddiddordeb ym mhopeth cysylltiedig a'r eglwys a llawenhâai pan fyddai llwyddiant. Benyw onest, ddidwyll, ddiddig ydoedd. Benyw nodedig am ei serchogrwydd a hoewder ei hys pryd. "Mair a ddewisodd y rhan dda yr hon ni ddygir oddiarni."

Rhagfyr 11, bu farw Griffith Jenkins, Glasfryn, Cribyn, yn 55 oed, gan adael priod, un mab, tair merch, dau frawd a thair chwaer, ynghyd a pherthynasau agos ereill, mewn galar o'i golli. Yr oedd ei iechyd wedi dechreu dirywio er's cryn amser; eithr byr—ychydig wythnosau—a fu ei gystudd ar y terfyn. Yn ei farw ef, collwyd un a fu'n ddefnyddiol a gwasanaethgar hyd eithaf ei allu. Gof ydoedd o alwedigaeth, ac enillodd iddo'i hun safle uchel fel crefftwr deheuig. Ac ef eto'n ieuanc, bu'n ymgeisydd mewn ymdrechfa bedoli ynglyn ag Arddangosfa Amaethyddol Prydain Fawr, a daeth allan yn fuddugwr—ymlaenaf ar y rhestr. Eithr ni chyfyngai ei wasanaeth a'i ddefnyddioldeb tu fewn i gylch ei alwedigaeth. Fel priod a thad gwnaeth ei ran. Ni wrthodai ei wasanaeth pa bryd bynnag ac ymha le bynnag y gelwid am dano; ni phallai un gymwynas os yn ei allu i'w rhoddi. Am dymor bu'n gynrychiolydd o Blwyf Ystrad ar Fwrdd Gwarcheidwaid Aberaeron. Yn y Capel (yn enwedig yn yr Ysgol Sul) bu'n ymdrechgar hyd eithaf ei allu. Yr oedd yr Ysgol Sul yn agos iawn at ei galon. Llafuriodd drosti'n ffyddlon hyd y methodd oherwydd afiechyd—fel llywodraethwr trefnus, ac fel athro gwybodus; a gwnaeth ei oreu i fod yn esiampl i'r plant a'r bobl ieuainc a'i mynychai. Lle gwag iawn mewn rhagor nag un ystyr, felly, yw'r lle a waghawyd gan ei farw. Coded eraill i lanw'i le. A'i deulu cydymdeimlir yn fawr gan gylch ei adnabyddiaeth. Nerth a gaffont i alaru'n gymhedrol. Dydd Sadwrn dilynol daeth tyrfa luosog i hebrwng ei ran farwol i gladdfa'r Capel. Pregethwyd yn y Capel gan y Parch. D. Evans; a chynorthwywyd yn y gwasanaeth gan y Parchn. T. O. Williams, M.A., Conwil Evans ac E. O. Jenkins (yr olaf yn hen gyfaill mynwesol iddo).

Rhagfyr 10, bu farw Timothy Watkin Davies, Penynant, ger Llanwnnen, yn 46 oed, yn dra disymwth, gan adael priod, un mab, mam-yng-nghyfraith, a pherthynasau eraill, mewn galar ar ei ol. Mab ydoedd i'r diweddar David ac Anne Davies, Cwmynach, ger Cribyn. Hannai felly o deuluoedd (ar y ddau tu) a fu'n flaenllaw yn amryw o'n heglwysi yn y ganrif ddiweddaf—teuluoedd Penbryn (Cribyn) ac Aberewm (Llanllwni). Ac y mae nifer luosog o'u disgynyddion yn parhau'n ffyddlon eto. Gwannaidd a fu ei iechyd er's blynyddoedd; ond parhaodd i godi a mynd oddeutu hyd y dydd olaf o'i fywyd, pan syrthiodd yn ddirybudd. Treuliodd beth o'i fywyd yn Ne Affrig, ac yn Llunden. Ychydig flynyddoedd yn ol ymneilltuodd o'i fasnach, a daeth i gartrefu yn y lle uchod. Claddwyd yng Nghapel-ygroes y Sadwrn dilynol, y cynhebrwng yn gyfyngedig i'r perthynasau ac ychydig gymdogion. Gweinyddwyd gan y Parch. D. Evans.

# *Nodion yr Eglwysi.*

Tua diwedd Tachwedd bu Cwmni Trecynon yn chware drama (Joan Danvers) dan nawdd Women's Institute Llanybyther (Llywydd —Miss Jones, Y Bryn) yn Neuadd Victoria Llanbedr. Bernid na welwyd mo'u gwell yn Llanbedr a theimlwn yn falch ohonynt am fod arlliw yr Hen Dy Cwrdd ar y Cwmni. Y maent wedi gwneud yn dda ac y mae gennym hawl i ddisgwyl a dymuno gwell eto.

---

## YMDDIHEURIAD.

Y mae Pwyllgor "Perlau Moliant" yn dymuno cyflwyno ei ymddiheuriad didwyll i Mr. Thomas Jones, Abertawe am y cyfnewidiadau mae wedi wneuthur yn yr Emynau o'i eiddo sydd yn ymddangos yn y Llyfr, ac yn ymrwymo y cânt ymddangos yn ol y gwreiddiol yn yr argraffiadau dilynol.

Mae y gwreiddiol fel y canlyn :—

*Am brydferthwch daear fyd.*

Am brydferthwch daear fyd,
Am brydferthwch wybren dlos,
Am y cariad er ein crud
Sydd o'n hamgylch ddydd a nos ;
Nefol Dad, yn awr nyni
Roddwn aberth mawl i Ti.

Am ein holl berth'nasau cu,
Plant, rhieni, chwaer a brawd,
Ceraint yma, ceraint fry,
Am bob meddwl tyner gawd ;
Nefol Dad, yn awr nyni
Roddwn aberth mawl i Ti.

Am dy roddion perffaith, rhad,
I'r ddynoliaeth, codwn lef,
Grasau dynol, dwyfol hâd,
Blodau'r llawr a blagur nef ;
Nefol Dad, yn awr nyni
Roddwn aberth mawl i Ti.

Am yr eglwys gwyd o hyd
Ei dihalog ddwylaw fry,
Gan offrymu trwy y byd
Aberth pur ei chariad cry' ;
Nefol Dad, yn awr nyni
Roddwn aberth mawl i Ti.

*Wyt ti'n llwythog a blinderog.*

Wyt ti'n llwythog a blinderog,
Wyt ti'n teimlo'th glwy' ?
Un a ddywed, "Tyred attaf,
Gorffwys mwy."

A oes nodau i'm tywys ato,
Yr Arweinydd pur ?
"Oes, mae yn ei draed a'i ddwylaw
Nodau cur."

A oes ar ei ben fel Brenin
Goron euraidd, gain ?
"Oes yn ddiau y mae coron,
Ond o ddrain."

Os dof ato, os canlynaf,
Beth a rydd i mi ?
"Llawer gofid, llawer ymdrech,
Dagrau'n lli."

Os o hyd y glynaf wrtho,
Beth fydd pen y daith ?
"Claddu gofid, croesi'r afon,
Gorffen gwaith."

Os gofynaf iddo'm derbyn,
A ddyweda na ?
"Nes êl nef a daear heibio,
Derbyn wna."

A oes sicrwydd y bendithia,
Ond im' gario'r groes ?
"Sant, Apostol, Proffwyd, Merthyr,
Dystiant, Oes."

*Cofio'r Groes.*

Wrth gofio'r groes, fy enaid gwan,
Beth yw dy weddi di ?
Ai am gael cyfoeth wyt i'th ran,
Daearol barch a bri ?

Ai gofyn wnei am oleu clir
Ar lwybrau dyrys Duw,—
Y gwawd, y groes, y poen, a'r cur—
A thynged dynol ryw ?

Ai gofyn wnei am nefoedd draw
Mewn gwlad tu hwnt i'r llen,
A thelyn euraidd yn dy law,
A choron ar dy ben ?

Nid dyna'm cais, nid dyna'm cri—
Fy ngweddi, Arglwydd, yw,
Cael canlyn Crist i Galfari
A chario Croes fy Nuw.

Dros y Pwyllgor, T. Arthur Thomas.

---

*J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.*

*Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.*

THE AUTHOR OF

# NEARER, MY GOD, TO THEE

**(SARAH FLOWER ADAMS)**

**By H. W. STEPHENSON, M.A.**

*The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."*

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

**Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2**

---

## YOUR CHILDREN'S EYESIGHT IS THEIR MOST VALUABLE POSSESSION.

If you have the slightest suspicion that your child is suffering in any degree from eye-strain, which may be indicated by headaches after a day at school, or by the child poring over a book with its head very close to the page, you should consult a qualified optician who will gladly offer you a candid opinion, and will most certainly not prescribe glasses unless absolutely necessary, after the most careful tests.

**CECIL JONES,** F.S.M.C., F.B.O.A., F.I.O. (London).

Is fully qualified to offer every service for the eyes at his sight-testing rooms, both at

**26, Great Darkgate Street, Aberystwyth** (Telephone 209)

**And at JONES, JEWELLER, LLANDYSSUL.**

---

## :: Bradford House, Llandyssul ::

**FOR WINTER GARMENTS.**

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

*E. LLOYD JONES.*



## A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through over 1960 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

# MIDLAND BANK

LIMITED

*HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C. 2*

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.